

WELSH SEAFOOD CAREERS

**RWY’N AWYDDUS I DDECHRAU FY
MHRENTISIAETH GWERTHWR PYSGOD, I
GWRDD Â MWY O BOBL SY’N GWEITHIO YN
Y DIWYDIANT BWYD MÔR AC I YMGYMRYD Â
MWY O HYFFORDDIANT. MAE YNA LAWER I’W
DDYSGU AM FWYD MÔR, O BLE MAE’N DOD,
SUT I’W GOGINIO, SUT I’W ARDDANGOS AR EI
ORAU, A’I WERTHU.**

*Denwyd Daniel i’r maes gwaith yma,
yn sgil adnabod yr her o ddysgu sut i
ffiledu pysgod a pharatoi mathau eraill
o fwyd môr. Roedd gwerthu pysgod yn
ymddangos fel her gyffrous ac
hwyliog wrth gael y cyfle i drafod a
sgwrsio gyda cwsmeriaid.*



**DANIEL JAMES,
GWERTHWR PYSGOD AR BRENTISIAETH,
THE FABULOUS FISH COMPANY, CAS-GWENT.**

Ymunodd Daniel gyda ‘The Fabulous Fish Company’ tuag at ddiwedd 2021 ac mae eisoes wedi cwblhau ei gymhwyster Hylendid Bwyd. Cyn hyn, roedd gan Daniel raddau mewn TG a Chyfryngau Amlgyfrwng, ond yn hytrach na dilyn y llwybr yma, mae wedi dewis cychwyn ar yrfa o fewn y diwydiant bwyd môr, ac mae’n gobeithio medru rhedeg ei fusnes ei hun fel gwerthwr pysgod llwyddiannus yn y dyfodol.

Heddiw, bum mis yn ddiweddarach dywed Daniel...

Rwy’n mwynhau dysgu mwy am bysgod a hefyd ddysgu am ein cwsmeriaid. Mae paratoi’r siop ar gyfer agor, trin bwyd môr o ansawdd uchel a gweithio mewn gweithle glân yn rhai o’r pethau gwych am ble rwy’n gweithio. Nid yw hyd yn oed y boreau cynnar yn broblem gan fy mod i’n mwynhau helpu cwsmeriaid a gweithio gyda’r cydweithwyr.

Darganfyddwch fwy am Daniel a [The Fabulous Fish Company](#)

